# YGG Castell-nedd

# Polisi Ysgol Gyfan- Codi Tâl

The Governing Body of YGG Castell-nedd
formally adopted this policy on: 28.11.22

To be reviewed: ______________________

Chair of Governors Signature: ____________ ____________

The United Nations Convention on the Rights of the Child (CRC) is at the heart of our school's planning, policies, practice and ethos. As a rights-respecting school we not only teach about children's rights but also model rights and respect in all relationships – Linked to Articles 3, 32 (CRC)

**Cyflwyniad**
Mae'r holl addysg o fewn oriau ysgol yn rhad ac am ddim. Nid ydym yn disgwyl codi tâl am unrhyw weithgaredd caiff ei gynnal fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

**Cyfraniadau gwirfoddol**
Wrth drefnu tripiau ysgol neu ymweliadau i gyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiad addysgiadol y plant, mae'r ysgol yn gwahodd rhieni i gyfrannu tuag at y gost. Mae pob cyfraniad yn wirfoddol. Os nad ydynt yn derbyn digon o gyfraniadau gwirfoddol, mae'n bosibl bydd rhaid canslo'r trip. Os bydd y trip yn mynd yn ei flaen, efallai bydd yn cynnwys plant sydd â'u rhieni heb wneud unrhyw gyfraniad. Nid ydym yn trin y plant yma yn wahanol i unrhyw un o'r lleill.
Os yw rhiant yn dymuno i'w plentyn gymryd rhan mewn trip neu ddigwyddiad ysgol, ond yn amharod neu heb fod yn gallu gwneud cyfraniad ariannol, rydym yn caniatáu i'r plentyn gyfranogi'n llawn yn y trip neu'r gweithgaredd. Ar adegau mae'r ysgol yn talu'r gost ychwanegol i gynnal yr ymweliad.

Mae'r canlynol yn rhestr o weithgareddau, a drefnir gan yr ysgol, sydd angen cyfraniadau gwirfoddol oddi wrth y rhieni. Caiff y gweithgareddau yma eu hadnabod fel 'ychwanegiadau opsiynol'.

Nid yw'r rhestr yma'n gynhwysfawr:

- ymweliadau I amgueddfeydd
- gweithgareddau antur awyr agored;
- ymweliadau I neu gan gwmni theatr;
- ymweliadau addysgol;
- digwyddiadau cerddorol.

**Ymweliadau preswyl**
Os bydd yr ysgol yn trefnu ymweliad preswyl yn ystod amser ysgol, neu'n bennaf yn ystod amser ysgol, sydd i ddarparu addysg a berthyn yn uniongyrchol i'r Cwricwlwm Cenedlaethol, nid ydym yn codi unrhyw dâl am yr addysg. Fodd bynnag, rydym yn codi tâl i gyflenwi cost bwyd, lletya a chostau teithio.

**Hyfforddiant cerddorol**
Ym Mlwyddyn 3 mae pob plentyn yn cael cyfle i astudio cerddoriaeth fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol ac yn derbyn gwersi ffidil am ddim.
Bydd pob plentyn sydd yn derbyn gwersi offerynnol tu hwnt I'r sesiynau yma yn talu'n llawn am eu gwersi.

Unwaith bydd rhiant yn talu am wersi am hanner tymor bydd disgwyl I blentyn parhau a thalu am y cyfnod yma er mwyn rhoi amser I’r athrawes recriwtio rhywun arall I gymryd y lle.
Bydd y cost yn amrywio o flwyddyn I flwyddyn yn ôl costiau’r AL.

**Nofio/Gymnasteg**
Mae'r ysgol yn trefnu gwersi nofio / gymnasteg ar gyfer plant yng Nghyfnod Allweddol 2. Ar hyn o bryd nid ydym yn gofyn am gyfraniad tuag at y gwersi.

**Cost llogi Bws,**
Rhaid codi at gost bws sydd yn mynd a’r plant at weithgaredd tu hwnt I’r Cwricwlwm Cenedlaethol. Gwneir pob ymdrech I sicrhau fod y costiau yma mor isel a phosib.

**Cost llogi Ystafell.**
Mae’r Llywodraethwyr wedi cytuno ystyried ceisiadau unigol i logi ystafell/ystafelloedd o fewn yr ysgol ond rhaid eu bod yn gwneud cyfraniad I’r ysgol yn unol a pholisi yr Awdurdod Lleol.
Mae’r Llywodraethwyr wedi cytuno ar gyfraniad/gost o £20 yr awr at unrhyw fusnes sydd yn creu paratoi wasanaeth at blant neu rhieni YGG Castell-nedd ac yn gwneud elw.
Bydd cais unrhyw gwmni sydd ddim yn darparu at blant/rhieni YGG Castell-nedd yn cael ei ystyried gan y corff Llywodraethol fel achos unigol.

Mae’r costau yma yn mynd tuag at gostau glanhau, niwed, trydan,staffio ayb.

**Grant PDG (Amddifadedd)**
Bydd gan y Pennaeth yr hawl I ddefnyddio’r grant penodol yma I gefnogi teulueoedd sydd yn derbyn PYDd wrth dalu am weithgareddau fel y disgrifwyd yn y polisi yma.

Bydd y Pennaeth bob amser yn gwneud ei gorau I sicrhau cyfleoedd cyfartal I bob plentyn a’i rhieni gan sicrhau amser I deuluoedd paratoi a thalu dros gyfnod o amser lle’n briodol.

**Adolygwyd y polisi yma gan y Corff Llywodraethol**
**Adolygwyd 2019-20 / 20-21 /21-22**